PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 22 MEHEFIN 2022

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Aelodau Annibynnol: Hollie Edwards-Davies (Cadeirydd) Chrissie Nicholls, Jason Bartlett, Arthur Hallett a/ac David Mills |
| | Y Cynghorwyr: Jayne Cowan, Stephen Cunnah a/ac Imran Latif |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2 : DATGANIADAU BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â'r Cod Ymarfer Aelodau.

3 : AELODAETH Y PWYLLGOR (CYNGHORWYR SIR) A CHYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor, yn ei gyfarfod Blynyddol ar 26 Mai 2022, wedi penodi'r Cynghorwyr Cowan, Cunnah a Latif i'r Pwyllgor a chytuno ar y Cylch Gorchwyl diwygiedig a oedd yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth wedi'i diweddaru a oedd yn gosod dyletswydd statudol ar Arweinwyr Grwpiau i hyrwyddo a chynnal safonau ymarfer uchel yn eu grwpiau a ddaeth i rym ar ôl yr Etholiadau Lleol diweddar.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd i'r Pwyllgor.

4 : COFNODION

Cymeradwyodd y Pwyllgor fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 9 Chwefror 2022.

5 : DIWEDDARIAD AR GWYNION COD YMARFER AELODAU - CHWARTER 4 2021/22

Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor o ran cwynion a wnaed yn erbyn aelodau o Gyngor Caerdydd neu unrhyw un o Gynghorau Cymuned Caerdydd yn ystod Chwarter 4 2021/22 (01.01.22 – 31.03.22) yn honni toriad o ran y Cod Ymarfer Aelodau.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod rhai cwynion o'r chwarter blaenorol yn dal heb eu datrys ac y byddai'r cwynion hynny'n cael eu hatgyfeirio i Is-bwyllgor Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg. Nid oedd yr atgyfeiriadau wedi digwydd eto oherwydd y Cyfnod Cyn Etholiad cyn yr Etholiadau Lleol. Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r broses yn aros yr un fath pe na bai'r Cynghorwyr hynny dan sylw yn aelodau etholedig mwyach a dywedwyd wrthynt fod y cwynion hynny heb eu datrys i gyd yn cynnwys aelodau sydd wedi cael eu hailethol. Er, pe bai'r aelodau wedi sefyll i lawr, yr aelod yn gwneud y gŵyn fyddai'n penderfynu a hoffai barhau ai peidio.

Cyfeiriwyd yr aelodau hefyd at y sefyllfa bresennol mewn perthynas â sesiynau hyfforddi'r Cod Ymarfer sydd wedi digwydd ers yr etholiadau. Cynhaliwyd 3 sesiwn ac aeth 47 aelod allan o 79 iddynt. Trafododd yr aelodau'r categorïau hyfforddiant a'r gweithdrefnau a ddilynwyd i sicrhau presenoldeb yn y sesiynau hyfforddi amrywiol gan gynnwys darparu

gwybodaeth i'r Chwipiau Grwpiau i'w dilyn i fyny. Mae adegau pan mai amseru'r sesiynau yw'r broblem, o ganlyniad cynigir sesiynau ar adegau gwahanol; ar ddyddiadau gwahanol; yn rhithwir; ac wyneb yn wyneb.

Dywedwyd wrth yr aelodau, gan gofio'r ddyletswydd statudol newydd ar Arweinwyr Grwpiau, sef, i hyrwyddo a chynnal safonau ymarfer uchel o fewn eu grwpiau, mai’r cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru yw y dylai Arweinwyr Grwpiau nawr gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor gan ddarparu gwybodaeth am gamau a gymerwyd i hyrwyddo safonau da o ymarfer o fewn eu grwpiau a’r hyfforddiant perthnasol y mae eu Haelodau wedi mynd iddo.  Bydd y manylion am bresenoldeb hyfforddiant yn cael eu poblogeiddio gan y Gwasanaethau Democrataidd.  Dylai adroddiad yr arweinwyr grwpiau dynnu sylw at unrhyw faterion sydd ganddynt, a hefyd eu galluogi i allu ateb cwestiynau sydd gan y Pwyllgor.

Roedd yr aelodau yn credu ei fod yn syniad da canfod a oes tuedd yn lefel y cwynion a wneir.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai angen hyfforddi aelodau newydd cyn mynd i'r Panel Gwrandawiadau, ac efallai y byddai'n rhaid ystyried defnyddio cynghorwyr.

Mynegodd yr aelodau bryder am yr amser a gymerir i ddatrys cwynion. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai fod angen ystyried a ddylid dwyn cwynion, nad ydynt yn cynnwys achos o dorri’r Cod ym marn y Swyddog Monitro, gerbron y Panel Gwrandawiadau.

PENDERFYNWYD:

Nodi cynnwys yr adroddiad

6 : AROLWG YMADAEL AELODAU 2022

Rhoddwyd i aelodau'r Pwyllgor ddadansoddiad o wybodaeth a gasglwyd o Arolwg Ymadael Aelodau 2022.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai 57% oedd y gyfradd gwblhau ar gyfer yr arolwg. Dangosodd yr arolygon ar ôl arolwg ymadael 2016 welliannau bychan o ran y rhai sy'n dweud eu bod wedi gweld ymddygiad annerbyniol. Yn arolwg 2022, dywedodd 38% eu bod wedi profi ymddygiadau annerbyniol. Nid yw’r rhesymau’n glir. Efallai bod mwy o barodrwydd i drafod ymddygiadau annerbyniol, neu efallai mai straen etholiadol sydd ar fai.

Trafododd yr aelodau'r awgrymiadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r arolwg ar sut i ddelio ag ymddygiad annerbyniol. Mae angen gweithio o fewn y fframwaith cyfreithiol a dilyn gweithdrefn y Panel Gwrandawiadau. Mewn arolygon blaenorol gostyngodd nifer y bobl a nododd ymddygiad annerbyniol yn dilyn hyfforddiant sefydlu, ac argymhellir cynnal arolwg arall ar ôl blwyddyn i weld a oes gostyngiad yn nifer yr adroddiadau. Byddai'n ddefnyddiol pe bai arweinwyr grwpiau’n ymgysylltu’n unol â'u dyletswydd statudol i hyrwyddo ymarfer da. Ni ddylid disgwyl y bydd pob swyddog yn herio ymddygiad annerbyniol.

Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd modd gwybod yn llwyr pa amserlen yr oedd pobl yn cyfeirio ato wrth adrodd ymddygiad annerbyniol yn yr arolygon rhwng 2016 a 2022, er bod yr arolwg ymadael yn cwmpasu'r cyfnod ers yr etholiad blaenorol.

Trafododd yr aelodau gwynion a gafodd eu codi gan gynghorwyr am ymddygiad annerbyniol gan aelodau o'u plaid eu hunain. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cwynion o'r fath yn cael eu codi'n anffurfiol weithiau. Nid yw’r swyddogion yn gallu ymwneud â digwyddiadau sy'n digwydd y tu allan i gyfarfodydd neu fusnes y Cyngor, er enghraifft mewn cyfarfodydd grwpiau. Mae gan grwpiau eu prosesau a’u harweinwyr eu hunain ac mae chwipiau grwpiau’n ceisio sicrhau ymddygiad derbyniol. Mae gan y rhan fwyaf o grwpiau ddirprwy arweinwyr a chwipiau grwpiau a fyddai'n cael eu cynnwys mewn hyfforddiant rhag ofn y bydd cwynion yn cael eu codi yn erbyn arweinydd y grŵp.

Dywedwyd wrth yr aelodau y cafwyd dau waharddiad yn ystod gweinyddiaeth ddiwethaf y Cyngor, y ddau yn cynnwys un aelod a'r ddau mewn perthynas â thoriadau difrifol o'r Cod Ymarfer. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor yn nodi nifer y cwynion a wnaed yn ystod y chwarter blaenorol. Nid yw cwynion a wnaed i arweinwyr neu chwipiau grwpiau’n cael eu cynnwys ac efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno i'r wybodaeth honno hefyd fod ar gael.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod hyfforddiant gloywi yn cael ei wneud o bryd i'w gilydd a bod cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu i gynghorwyr. Nid yw'n glir faint sy’n darllen y cylchlythyr o ystyried llwyth gwaith cynghorwyr, ac o ystyried bod gan lawer hefyd swyddi llawn amser a chyfrifoldebau teuluol. Efallai y byddai'n bosib i uwch swyddogion neu Gadeirydd y Pwyllgor fynychu cyfarfodydd grwpiau i helpu i gyfleu'r neges.

Trafododd yr aelodau hyfforddiant o ran cydnabod ymddygiad annerbyniol. Rhoddir enghreifftiau mewn hyfforddiant Cod Ymarfer. Byddai cyflogi arbenigwyr allanol i ddarparu hyfforddiant arbenigol yn anfforddiadwy ac nid oes gan y swyddogion amser i gynnal ymarferion modelu rôl. Yn aml, nid yw'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf o hyfforddiant yn ei fynychu.

Roedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn archwilio gwahanol ddadansoddiadau o'r data ynghylch cwynion am ymddygiad annerbyniol mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig amrywiol. Dywedodd y swyddogion y byddai'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn y cyfarfod nesaf pe bai ar gael, ond rhybuddion nhw efallai na fyddai'n bosib gan fod y data'n cael ei wneud yn ddienw.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod gan Gadeiryddion y pŵer i wahardd cynghorwyr o gyfarfodydd, ond cyngor y swyddogion oedd peidio ag arfer y pŵer gan y byddai'n anodd ei orfodi heb darfu'n ormodol ar y Cyngor a heb achosi embaras iddo, yn enwedig yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn. Mae’r swyddogion yn ceisio delio â phroblemau heb amharu ar y gwaith o wneud busnes.

Awgrymodd yr aelodau fod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor yn ystyried ysgrifennu llythyr at arweinwyr grwpiau’n manylu ar rai o'r materion a godwyd wrth drafod yr eitem hon.

PENDERFYNWYD:

(1) nodi'r dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd o Arolwg Ymadael 2022 sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn;

(2) cytuno i fonitro'r sefyllfa am 12 mis a chynnal arolwg arall ym mis Ebrill 2023 i wirio am unrhyw welliannau.

7 : CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT AR SAFONAU YMARFER A DATGELU CYFEIRIADAU CARTREF AELODAU YN Y GOFRESTR BUDDIANNAU AELODAU

Dywedwyd wrth yr aelodau am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllawiau strategaeth drafft mewn perthynas â:

(i) dyletswyddau newydd arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymarfer a dyletswyddau cyfatebol newydd a roddir ar bwyllgorau safonau (a gyflwynwyd gan Ran 4 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, 'Deddf 2021'); a'r ymateb a gyflwynwyd gan y Swyddog Monitro; a

(ii) rhannau eraill o Ddeddf 2021 (o fewn canllawiau cyfunol y cyfeirir atynt fel 'y Llawlyfr Democratiaeth'. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor Safonau a Moeseg), mewn perthynas â goblygiadau posibl datgelu cyfeiriadau cartref Aelodau yn y Gofrestr Buddiannau Aelodau.

Nododd yr aelodau fod ymateb wedi'i gyflwyno mewn perthynas â'r canllawiau drafft mewn perthynas â dyletswyddau newydd arweinwyr grwpiau gwleidyddol; croesawyd y dyletswyddau statudol newydd.

Trafododd yr aelodau oblygiadau datgelu cyfeiriadau cartref Aelodau sy'n ymddangos yn y Gofrestr Buddiannau Aelodau, gyda phryderon yn cael eu codi am ddigwyddiadau o drais yn cynnwys Aelodau Etholedig presennol a blaenorol. Dywedwyd wrth yr aelodau y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro, y Rheolwr Diogelwch Corfforaethol, a hefyd i'r Heddlu am unrhyw ddigwyddiadau. Rhoddwyd gwybodaeth am yr app PeopleSafe a ddarperir gan y Cyngor.

Yn ystod y trafodaethau hynny, dywedwyd wrth yr aelodau fod canllawiau'r Ombwdsmon yn ei gwneud yn glir ar hyn o bryd nad oes angen darparu cyfeiriadau cartref llawn, ond y bydd enw stryd neu god post yn ddigon. Gall y Swyddog Monitro, os yw hi'n credu, gan gadw amgylchiadau penodol mewn cof, fod risg ddifrifol o drais neu fygwth, wneud eithriad.

Roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r ymateb i'r ymgynghoriad fod ar sail yr unig wybodaeth sy'n cael ei darparu yn Ardal y Ward. Hoffai'r aelodau gael yr ymateb i'r ymgynghoriad i wneud sylwadau arno cyn iddo gael anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru.

Trafododd yr aelodau'r Adroddiad Pro Forma i'w gwblhau gan Arweinwyr Grwpiau; Bydd yn cynnwys nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i arweinwyr grwpiau a dylai gynnwys unrhyw adroddiadau o ymddygiad annerbyniol.

Trafododd yr aelodau amlder cyfarfodydd gydag Arweinwyr a Chwipiau Grwpiau; Argymhellodd yr aelodau y dylid gwahodd Arweinwyr a Chwipiau Grwpiau i'r cyfarfodydd

ddwywaith y flwyddyn. Dywedwyd wrth yr aelodau fod gan Gynghrair Tir Cyffredin Plaid Cymru/y Blaid Werdd Arweinydd a Chwip Grŵp fyddai'n cael gwahoddiad. Mae gan Propel un aelod annibynnol nad yw'n ffurfio grŵp; ni fyddai angen eu gwahodd gan nad yw dyletswyddau statudol Arweinwyr Grwpiau’n berthnasol.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi'r wybodaeth a nodir yn yr adroddiad a'r atodiadau;

(2) Cytuno ar Adroddiad Pro Forma’r Arweinwyr Grwpiau i’r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn **Atodiad A**, gyda'r diwygiadau y cytunwyd arnynt, a’r amlder adrodd arfaethedig;

(3) Cytuno y dylid trafod Adroddiadau Pro Forma’r Arweinwyr Grwpiau sydd wedi’u cwblhau (**Atodiad A**, gydag unrhyw ddiwygiadau y cytunwyd arnynt) yn y cyfarfod nesaf gydag arweinwyr a chwipiau grwpiau, sydd wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2022;

(4) Cymeradwyo'r Ymateb i’r Ymgynghoriad a gyflwynwyd gan y Swyddog Monitro, **Atodiad B**; ac

Awdurdodi'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i gwblhau'r ymateb sydd i'w gyflwyno ar ran y pwyllgor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Llawlyfr Democratiaeth, mewn perthynas â datgelu cyfeiriadau Aelodau yn y Gofrestr Buddiannau Aelodau (paragraff 15 yr adroddiad).

8 : AELODAETH Y BWYLLGOR - AELOD CYNGOR CYMUNED; AC ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Trafododd yr aelodau y swydd wag ar y Pwyllgor ar gyfer Aelod Cyngor Cymuned, a threfniadau ar gyfer proses ddethol i lenwi'r swydd wag; ac ethol Cadeirydd i ddechrau yn y swydd ar ôl i gyfnod y Cadeirydd presennol ddod i ben, ac Is-Gadeirydd os bydd y swydd honno’n dod yn wag wedyn.

Nodwyd bod y Pwyllgor wedi derbyn 3 mynegiant o ddiddordeb mewn llenwi'r swydd wag ar gyfer aelod Cyngor Cymuned, fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad sydd wedi'i eithrio rhag ei gyhoeddi.

Cafodd Jason Bartlett ei enwebu a'i gymeradwyo fel Cadeirydd. Cadarnhaodd Chrissie Nicholls ei bod yn hapus i barhau fel Is-Gadeirydd.

Gwirfoddololodd Jason Bartlett, David Mills a Chrissie Nicholls i wasanaethu ar y Panel Penodi, gydag Arthur Hallett a'r Cyng Cowan wrth gefn.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r wybodaeth a nodir yn yr adroddiad hwn ac yn **Atodiad A (wedi'i eithrio)**;

2. Cytuno i sefydlu Panel Penodi, yn unol â pharagraff 9 yr adroddiad, gydag awdurdod dirprwyedig i lunio rhestr fer ac, os oes angen, cyfweld ag enwebeion cymwys ar gyfer y swydd aelod Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor Safonau a Moeseg, a gwneud argymhellion ar benodi;

3. Awdurdodi'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i wneud yr holl drefniadau gweinyddol angenrheidiol ar gyfer y broses ddethol, gan gynnwys cynnull y Panel Penodi a threfnu cyfweliadau;

4. Argymell penodi (i) aelod cyngor cymuned; ac (ii) yn amodol ar gymeradwyo'r diwygiadau cyfansoddiad gofynnol, dirprwy aelod cyngor cymuned i gyflawni'r rôl mewn achosion lle mae gan yr aelod cyngor cymuned fuddiannau sy'n gwrthdaro, fel y nodir ym mharagraffau 10-11 yr adroddiad;

5. Nodi y bydd argymhellion y Panel Penodi ar benodi'r aelod cyngor cymuned a'r dirprwy aelod cyngor cymuned, ynghyd â'r diwygiadau Cyfansoddiad a argymhellwyd, yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo; ac

Ethol Jason Bartlett fel Cadeirydd am bedair blynedd neu nes i'w gyfnod yn y swydd ar y Pwyllgor ddod i ben os yw hyn yn gynt.

9 : ARSYLWADAU MEWN CYFARFODYDD

Trafododd yr aelodau'r adborth a ddarparwyd gan aelodau'r Pwyllgor ar ôl arsylwi cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd Cynghorau Chymuned.

Mynegodd yr aelodau awydd i ddosbarthu rhestr o gyfarfodydd sydd i ddod a fyddai'n eu gwneud yn bosibl cydlynu ymweliadau rhwng yr aelodau; Dywedodd y swyddogion y gallai hyn gael ei hwyluso ar ôl i amserlen o gyfarfodydd gael ei chytuno yng nghyfarfod y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi'r adborth arsylwi cyfarfodydd a dderbyniwyd, fel y nodir yn **Atodiad A**

(2) Parhau i arsylwi cyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgorau a Chynghorau Cymuned a rhoi adborth i'r Pwyllgor.

10 : RHAGLEN WAITH 2022/2023

Ystyriodd yr aelodau Raglen Waith y Pwyllgor a chytunon nhw ar yr eitemau i'w hystyried gan y Pwyllgor yn 2022/23.

Diolchodd yr aelodau i Hollie Edwards-Davies am ei gwasanaeth ar y Pwyllgor ac fel Cadeirydd y Pwyllgor.

11 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

12 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w gadarnhau

Daeth y cyfarfod I ben am 6.44 pm